# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

**COFNODION**
**IONAWR 2026**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 21ain Ionawr, 2026 |
| **AMSER** | 7.00 y.h |
| **LLEOLIAD** | Canolfan Cae'r Gors, Rhosgadfan |

**PRESENOLDEB**

| ENW | Cyf. | SWYDDOGAETH | PRESENNOL/ABSENNOL/ YMDDIHEURO |
|---|---|---|---|
| Dyfan Thomas | DT | Cadeirydd | Presennol |
| Gwilym V Thomas | GVT | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Michelle Williams | MS | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Nerys Evans | NE | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Jason Hunt | JH | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Gwilym Ll Williams | GLW | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Tom Ellis | TE | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Adam S Roberts | ASR | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Arwyn Roberts | AR | Cynghorydd Ward Tryfan | Ymddiheuro |
| Huw Rowlands | HR | Cynghorydd Ward Llanwnda | Presennol |
| Nia Gruffydd | NG | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Aeron M.Jones | AMJ | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Avril M Evans | AME | Clerc | Presennol |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **CROESO A DATGANIADAU BUDDIANT**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.<br><br>Gofynnwyd i unrhyw aelod ddatgan unrhyw fuddiant ychwanegol i'r hyn sydd ar y rhestr flynyddol. | |
| | **PWYNT GWEITHREDU: DIM** | |
| 2. | **Cofnodion Cyfarfod 19.11.25**<br>Cyflwynwyd y cofnodion diweddara, ac fe'u cymeradwywyd yn unfrydol. | |
| 3. | **PWYNT GWEITHREDU: DIM** | |
| 4. | **Pwyntiau Gweithredu**<br>Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu diweddara. Roedd diweddariadau i'w cael yn y gofrestr pwyntiau gweithredu oedd wedi'i danfon yn rhan o'r papurau.<br><br>• Siec cyflog y cyn Clerc (rhif 101801 gwerth £568.66) – yn absenoldeb AR cytunwyd i gynnwys hwn yn agenda'r cyfarfod nesaf.<br><br>• Diweddariad ar y wefan – Nododd DT fod oedi wedi bod yma oherwydd prysurdeb gwaith, ond for Delwedd wedi cysylltu yn ddiweddar, gan gadarnhau fod gwaith ar y wefan wedi cychwyn. Cytunodd DT i ymholi eto am greu logo. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • DT i drefnu i gyfarfod GVT a GLW i gysylltu eu cyfeiriadau e-byst newydd – Nododd DT y byddai'n cysylltu gyda GLW yn fuan. GVT eisoes wedi derbyn cyfeiriad e-bost.<br><br>• Gwaith ail-osod copings mynwent Cefnfaes - Nododd AME fod Ceri wedi ffonio ar ddiwrnod y cyfarfod i egluro nad ydi'r gwaith wedi ei gychwyn eto oherwydd y tywydd gwael dros yr wythnosau diwethaf. Gobeithid cychwyn ar y gwaith yn y dyddiau nesaf. Mynegodd DT ddiddordeb mewn cyfarfod Ceri yn y fynwent. Cytunodd AME i rannu ei rif ffôn.<br><br>• Lein Bryngwyn – nodwyd fod aelodau wedi cytuno drwy e-bost i dalu hanner yr anfoneb yn derbyn eglurhad gan Mr Jones.<br><br>Mewn perthynas á'r bil o £800 am drwsio'r ail ffens – tybiodd NE nad oedd wir angen y ffens yno, gan fod rhannau o'r llwybr heb ffens. Eiliodd NG gan awgrymu mai cyfrifoldeb y ffermwr ydi gosod/talu am ffens os ydyw am gadw ei stoc oddi ar y llwybr cyhoeddus.<br><br>Ychwanegodd GVL y byddai cael gwartheg yn rhydd ar y llwybr ond yn arwain at gwynion gan y cyhoedd yn y dyfodol, gyda GVT yn nodi fod y Cyngor Cymuned yn annog defnydd o'r llwybrau, a'i fod yn rhesymol felly derbyn cyfrifoldeb am eu cadw'n saff.<br><br>Mynegodd NE bryder pe byddai'r bil yma yn cael ei dalu, y byddai ceisiadau yn siŵr o ddod gan eraill.<br><br>Awgrymodd NG fod unrhyw gais yn y dyfodol yn cael ei adolygu fel yr angen, ac nad ydi'r Cyngor Cymuned yn ymrwymo i dalu pob cais.<br><br>Cytunwyd i dalu'r £800, gyda'r Clerc i e-bostio Mr Jones yn gofyn i ddisgwyl hyd nes bod y Cyngor yn cymeradwyo unrhyw waith yn y dyfodol, cyn mynd ati i'w gwblhau.<br><br>• Modurdai Bro Gilbert - Adroddodd HR at ymateb Adra i'r ymholiad am ddyfodol modurdai Bro Gilbert. Nodwyd fod y tir dan sylw y tu allan i anghenion y busnes ac o ganlyniad fod llythyrau wedi eu danfon allan at y trigolion cyfagos i asesu diddordeb lleol i brynu'r tir hwn. Os na dderbynnir unrhyw ddiddordeb, byddant yn edrych ar hysbysebu'r tir gydag asiant tai lleol.<br><br>Nodwyd nad yw adnewyddu'r garejys presennol yn hyfyw ariannol i Adra ei gwblhau a'i reoli yn y dyfodol, ac nad ydynt am ystyried unrhyw broblemau parcio posibl yn y dyfodol.<br><br>Mynegodd aelodau bryder mawr am y sefyllfa parcio yn dilyn adeiladu mwy o dai, y byddai'n siŵr o arwain at gwynion wedi eu cyfeirio at y Cyngor Cymuned. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn sgil y wybodaeth wedi ei dderbyn, cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu yn ôl gydag Adra i fynegi gwrthwynebiad cryf y Cyngor, gyda HR hefyd i barhau efo'i ymholiadau.<br><br>• Llwybr 161 - Adroddodd y Clerc fod ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd, h.y. eu bod wedi ymweld â'r lleoliad cyn y Nadolig, ac yn bwriadu gosod giât mochyn. Gofynnwyd iddynt ddiweddaru'r Cyngor Cymuned o unrhyw ddatblygiad.<br><br>• Ceisiadau nawdd - penderfynwyd peidio â thrafod hwn hyd nes bod y cais praesept a sefyllfa ariannol y Cyngor wedi ei drafod yn gyntaf (gweler 'Materion i'w Trafod).<br><br>• Clerc i ymaelodi efo SLCC - Nododd y Clerc ei bod wedi ymaelodi yn ddiweddar, ond na fydd yn cael mynediad at yr hyfforddiant hyd nes bod siec wedi ei dderbyn gan y Cyngor Cymuned. Cytunodd bawb i dalu'r ffi aelodaeth.<br><br>• Cyfarfodydd Ysgol Gynradd Rhosgadfan- AR yn absennol, cytunwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>• Diffyg torri gwair a gwrychoedd - Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn cynnig i aelod o'r Cyngor Cymuned i gyfarfod i drafod y pwnc. Cytunodd bawb y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth ar gyfer y dyfodol o lefydd sydd yn/ddim yn derbyn toriadau.<br><br>Mynegodd HR ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn e-bostio'r swyddog yng Nghyngor Gwynedd yn derbyn y cynnig, gan gynnwys HR yn yr e-bost i drefnu dyddiad cyfleus. | |
| 5. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>• **Ymholi Delwedd am greu logo i'r Cyngor Cymuned**<br>• **Trefnu cyfeiriad e-bost newydd i GLW**<br>• **Rhannu rhif ffôn Ceri fel i DT allu trefnu cyfarfod**<br>• **E-bostio Mr D Jones i gadarnhau amodau talu i drwsio ffens Lein Bryngwyn**<br>• **Cysylltu gydag Adra i fynegi gwrthwynebiad i adeiladau mwy o dai ym Mro Gilbert**<br>• **E-bostio Cyngor Gwynedd i dderbyn eu cynnig i gyfarfod i drafod torri gwair, gan gynnwys HR yn yr ohebiaeth**<br>• **Cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod trefniadau torri gwair** | **DT**<br>**DT**<br>**AME**<br>**AME**<br><br>**AME + HR**<br><br>**AME**<br><br>**HR** |
| 6. | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw ar 29/12/25:<br>Cyfri Siec ar 28/12/25:<br><br>Cydnabuwyd anfonebau/Taliadau brys wedi eu cymeradwyo dros e-bost a thalu ers cyfarfod Tachwedd 2025: | <br>£21,653.42<br>£26,730.20 |

| | | |
|---|---|---|
| | Sieciau:<br>• D.Jones – ffensio Lein Bryngwyn<br>• Zurich-yswiriant<br>• Nature Sign-arwyddion Prosiect Llwybrau<br>• S.Lewis-gosod arwyddion Prosiect Llwybrau<br>• S.Lewis-Torri gwair a chlirio'r fynwent<br><br>Anfonebau/Taliadau:<br>Sieciau:<br>Cyflog/costau clerc (Avril) Tachwedd 2025 (mis 8), a Rhagfyr 2025 (mis 9) (£616.00 + £616.00)<br><br>Tanysgrifiad trwyddedau IONOS & MICROSOFT d/o Dyfan Thomas (£7.20, £9.72, £7.20, £12.10, £12.10, £9.72)<br><br>Tanysgrifiad SLCC Clerc<br><br>Aeron Jones – lwfans aelodau<br><br>D.Jones – trwsio ail ffens Lein Bryngwyn<br><br>Taliadau ar-lein:<br>HSBC – ffioedd banc Tach<br>HSBC – ffioedd banc Rhag<br>HSBC – ffi atal siec<br><br>Incwm:<br>Claddu llwch<br>Llog<br><br>Gofynnodd DT á fyddai'n bosibl trefnu i daliadau tanysgrifiad IONOS a Microsoft cael eu talu drwy DD. Heb gerdyn banc ar hyn o bryd, mae hynny'n amhosibl. Eglurodd y Clerc ei bod hi ac MW newydd lwyddo i newid cyfeiriad y cyfrif banc, ac mai'r cam nesaf yw sefydlu bancio dros y we, ond ei fod yn broses araf ofnadwy. | <br>£930.00<br>£1,736.38<br>£9,408.00<br>£500.00<br>£890.00<br><br><br><br>£1,232.00<br><br><br>£58.04<br><br><br>£170.00<br><br>£156.00<br><br>£800.00<br><br><br>£2.00<br>£2.80<br>£10.00<br><br><br>£500.00<br>£176.94 |
| 7. | **PWYNT GWEITHREDU: Clerc i bostio sieciau** | |
| 8. | **Is-bwyllgorau**<br><br>Cyfarfod Is-bwyllgor Staffio wedi ei gynnal 27/11. Cofnodion wedi eu rhannu gydag aelodau. Cofnodion wedi eu derbyn.<br><br>Awgrymodd NG dylid trafod cyflogaeth y Clerc yn y cyfarfod nesaf, gyda'r cyfnod prawf yn fuan dod i ben. Cytunwyd yn unfrydol. | |
| 9. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>• Cynnwys 'trafod cyflogaeth y Clerc' ar agenda mis Chwefror | **AME** |

| 10. | **Materion i'w trafod**<br><br>• Cais grant Cyfraniad Ni i Gynghorau Tref a Chymuned Gwynedd - diweddariad gan AME - Eglurodd y Clerc fod yr arwyddion wedi eu cymeradwyo yn ddiweddar, ond fod y broses o greu yn gallu bod cymryd 4/6 wythnos. Tybir felly na fydd yr arwyddion yn cael eu derbyn hyd nes cychwyn mis Chwefror. Nodwyd na fydd Cyngor Gwynedd yn rhoi ad-daliad hyd nes bod yr arwyddion wedi eu gosod. Eglurwyd fod yr arwyddion yn cael eu darparu i gyfeiriad cartref y contractwr fydd yn eu gosod.<br><br>Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi dweud fod balans o £660 ar ôl i'w wario erbyn wythnos gyntaf mis Ionawr. Heb gerdyn banc, anodd iawn byddai wedi bod i brynu unrhyw nwyddau newydd erbyn hynny. Eglurwyd fod y Clerc wedi ymholi am dderbyn ad-daliad am waith eisoes wedi ei wneud. Cytunwyd, gydag ad-daliad o £460 wedi ei dderbyn am dorri gwair y fynwent, gwaith a gwblhawyd yn fis Rhagfyr.<br><br>Cytunodd y Clerc i rannu proflenni'r arwyddion gyda'r aelodau er gwybodaeth.<br><br>• Trwsio ffens ar lwybr Bryngwyn - eisoes wedi ei drafod uchod 'Cofrestr Pwyntiau Gweithredu'.<br><br>• Biniau halen Fron Deg (Rhostryfan), Bro Cadfan (Rhosgadfan), a Gwêl y Foel (Dinas) - Nododd HR fod sawl cais am fin newydd wedi ei dderbyn yn ddiweddar a'i fod wedi gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd. Eglurwyd y byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned dalu am unrhyw finiau newydd, a'i fod yn bosibl eu prynu drwy Gyngor Gwynedd. Fodd bynnag, roedd dau wahanol bris wedi ei dderbyn, a neb i weld yn gallu rhoi ymateb pendant ynglŷn â chyfrifoldeb pwy fyddai llenwi'r biniau gyda halen.<br><br>Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn holi am drefniadau yn sgil derbyn sawl cais yn ddiweddar, gyda HR i barhau gyda'i ymholiadau. Awgrymwyd hefyd y byddai'n fuddiol i HR ymholi am bwy sy'n gyfrifol am y lonydd (ydi Cyngor Gwynedd wedi eu mabwysiadau?), fel i wybod pwy fyddai angen gofyn caniatâd i osod biniau newydd.<br><br>• Maes parcio Llwybr Bryngwyn - nododd HR ei fod wedi derbyn sawl cwyn am gyflwr y maes parcio. Eglurodd ei fod wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd á ddywedodd nad oedd bwriad wrth ddatblygu'r llwybr i'r ysgol i wella'r maes parcio oherwydd natur y ffynhonnell ariannu- sef darparu llwybr llesol, a byddai gwella maes parcio yn debygol o arwain at fwy o ddefnydd o geir.<br>Mynegodd NE rhwystredigaeth fod cyflwr y maes parcio a gwrthwynebiad sawl rhiant i'w ddefnyddio, yn gwneud y llwybr yn ddi-werth.<br><br>O ystyried mai'r Rheilffordd sydd berchen y maes parcio, cynigodd GVT ein bod yn gwahodd rhywun o'r rheilffordd i'r cyfarfodydd i drafod ymhellach. | |
|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cytunodd HR i ymholi, gan hefyd awgrymu y byddai'n fuddiol tafod gydag aelodau o YGC a'r adran Addysg hefyd.<br><br>• Cau ffyrdd yn ddi-rybydd - Adroddodd HR fod sawl cwyn wedi ei dderbyn am Dwr Cymru yn cael ffyrdd yn ddi-rybydd yn ddiweddar. Er cydnabod fod arwyddion 'Ffordd wedi cau' wedi eu gosod mewn mannau amhriodol, cytunwyd fod y gwaith yn angenrheidiol, a bod y tywydd wedi cyfrannu at yr oedi yn cwblhau'r gwaith.<br><br>• Cynllun hyfforddiant - cyflwynodd y Clerc Gynllun Hyfforddiant, gan nodi y byddai'n cadw cofnod o hyfforddiant aelodau o hyn ymlaen. Cadarnhawyd y byddai'n hysbysu'r aelodau o unrhyw hyfforddiant ar gael, gan eu hannog i fynychu cymaint â phosibl. Bydd cofnod o hyfforddiant y Clerc hefyd yn cael ei gofnodi.<br><br>• Pennu praesept 2026/27 – Adolygwyd y gyllideb am 2026/27. Fel i sicrhau balansau wrth gefn digonol, penderfynwyd cynyddu'r braespet am 2026/27 i £34,100.<br><br>Nodir fod y Cyngor Cymuned wedi cadw balansau wrth gefn sylweddol dros y blynyddoedd fel i adeiladu wal newydd yn y fynwent. Mae hyn yn gostus dros ben, a'r balansau wrth gefn ar hyn o bryd yn annigonol.<br><br>O ystyried fod y balansau wrth gefn wedi lleihau yn ddiweddar, a bod y Cyngor Cymuned wedi bod yn hael iawn wrth ddarparu taliadau nawdd yn ystod yr haf 2025/26, cytunwyd na fyddai'r Cyngor yn darparu taliadau nawdd hyd nes haf 2026/27, a bod yr haelioni yn gwneud yn iawn am y methiant i ddarparu nawdd yn 2024/25.<br><br>Cymeradwywyd a mabwysiadwyd y gyllideb am 26/27.<br><br>Cytunwyd i'r Clerc yrru'r cais praesept i Gyngor Gwynedd, ac i gysylltu gyda rheini eisoes wedi cyflwyno ceisiadau nawdd i egluro'r sefyllfa.<br><br>• Ad-daliad cynnal llwybrau cyhoeddus - Adroddodd y Clerc fod cais wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd i gyflwyno anfonebau cynnal llwybrau ar gyfer derbyn ad-daliad. Nodir nad ydi unrhyw waith a wnaethpwyd ar Lein Bryngwyn yn gymwys.<br><br>O ystyried nad ydi'r anfonebau yn nodi lleoliad y gwaith, cytunwyd i hawlio 60% o'r hyn wariwyd ar lwybrau yn 2025/26, sef £2,992.80 (gwariant am y flwyddyn yn £4,988).<br><br>Cytunwyd i'r Clerc gyflwyno'r cais, gan ofyn i SL (contractwr ar hyn o bryd) i baratoi anfonebau ar wahân ar gyfer Lein Bryngwyn o hyn ymlaen, fel i hwyluso'r broses yn y dyfodol.<br><br>• Arwyddo dogfennau buddiannau/lwfansau – DT wedi cyflwyno dogfennau yn ystod y cyfarfod. Nodir fod pob aelod wedi cwblhau'r ffurflenni perthnasol erbyn hyn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Clerc ar wyliau trydedd wythnos yn fis Mawrth - Adroddwyd fod y Clerc ar wyliau ar y drydedd wythnos ym mis Mawrth (wedi eu trefnu cyn ei chyflogaeth), ac y byddai angen newid dyddiad y cyfarfod. Cytunodd bawb i gynnal cyfarfod mis Mawrth ar 11eg.<br><br>• Mandad banc - Er wedi llwyddo i newid cyfeiriad y cyfrifon banc i gyfeiriad cartref y Clerc, eglurwyd ei bod yn parhau i gael trafferthion wrth ymweld á'r banc. Heb fod yn 'lofnodwr' mae'r banc yn gwrthod trafod unrhyw beth na darparu datganiadau banc.<br><br>Cytunwyd i gwblhau mandad newydd fyddai'n enwi'r Clerc fel 'llofnodwr'.<br><br>• Archwiliad cyfrifon 2024/25 - Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru i'r aelodau.<br>• Derbyniwyd yr adroddiad, gyda'r Clerc yn cytuno i rannu'r cyfrifon gyda DT fel i'w cyhoeddi ar y wefan, yn ogystal â hysbyseb i'r cyhoedd eu gweld.<br><br>• Hawliau ceffylau ar lwybr Tryfan Junction i Rostryfan – Adroddodd y Clerc fod sawl cais wedi eu derbyn yn ddiweddar yn ymholi am agor y llwybr i farchogion. Cyflwynwyd y ceisiadau i'r Cyngor cyn y cyfarfod.<br><br>Nodwyd nad y Cyngor Cymuned sydd berchen y llwybr, ac felly nad oes hawl ganiatáu marchogaeth arno. Yn ogystal i'r ffaith y byddai angen asesiad risg, a bod yswiriant y Cyngor yn annigonol, pe bydda'n cael ei ganiatáu, mynegwyd pryder mawr am ddiogelwch plant/pobl/beicwyr/cwm sydd yn defnyddio'r llwybr, heb lefydd saff i basio ar rannau cul.<br><br>Nodwyd y byddai defnydd cyson gan geffylau yn siŵr o waethygu cyflwr y llwybr, fyddai'n arwain at gostau ychwanegol i'r Cyngor Gymuned, ac nad ydi'r adnoddau ychwanegol hynny ar gael.<br><br>Cytunwyd i'r Clerc lunio ymateb i'r ymholiadau. | |
| 11. | **PWYNT GWEITHREDU :**<br>• **Rhannu proflenni arwyddion gydag aelodau**<br>• **Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn ymholi am gael biniau halen newydd**<br>• **Parhau gydag ymholiadau biniau halen, a cheisio darganfod os ydi Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadau'r lonydd**<br>• **Gwahodd aelodau o'r rheilffordd, YGC, ac adran Addysg i gyfarfod i drafod maes parcio Llwybr Bryngwyn**<br>• **Gyrru'r cais praesept**<br>• **Hysbysu'r rheini sydd wedi gyrru ceisiadau nawdd ân fyddwn yn derbyn ceisiadau hyd nes yr haf 2026.**<br>• **Cyflwyno cais ad-daliad llwybrau**<br>• **Gofyn i SL gyflwyno anfonebau ar wahân am waith ar Lein Bryngwyn**<br>• **Cwblhau mandad banc fel i wneud y Clerc yn llofnodwr**<br>• **Darparu datganiad a chyfrifon 24/25, yn ogystal â gwahoddiad i'r cyhoedd eu gweld i'w rhannu ar y wefan**<br>• **Llunio ymateb i ymholiadau i farchogaeth ar lwybrau cyhoeddus** | **AME**<br>**AME**<br>**HR**<br><br>**HR**<br><br>**AME**<br>**AME**<br>**AME**<br>**AME**<br>**AME**<br><br>**AME**<br>**AME** |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | **Materion Cynllunio**<br><br>**CEISIADAU WEDI EU CYMERADWYO DROS E-BOST DROS GYFNOD Y NADOLIG:**<br><br>Ysgol Felinwnda – creu mynediad newydd<br><br>Tyn Y Weirglodd, Rhosgadfan - dymchwel modurdai ac adeiladu estyniad<br><br>Allt Wen, Ffrwd Cae Du - dymchwel modurdy ac adeiladu estyniad | |
| 13. | **PWYNT GWEITHREDU –**<br>**DIM** | |
| 14. | **Gohebiaeth –**<br><br>• Llythyr gan Bennaeth Priffyrdd mewn ymateb i ymholiad i gyflwr gwrychoedd.<br>• Ceisiadau nawdd gan Urdd Gobaith Cymru, papur bro Lleu, a Cof y Cwmwd - Clerc wedi rhannu templed hysbyseb gydag aelodau<br>• E-bost o ddiolch gan Bethan | |
| | **PWYNT GWEITHREDU :**<br>**DIM** | |
| 15. | **Materion Cynghorwyr Sir -** e-bost wedi ei dderbyn gan HR cyn y cyfarfod. | |
| 16. | **PWYNT GWEITHREDU: DIM** | |
| 17. | **Rhannu Gwybodaeth**<br>GLW yn awgrymu gosod arwydd 'Y Lon Wen', fel i annog defnydd o'r enw cywir, rhag ei golli. Mynegodd sawl aelod rwystredigaeth fod y lon yn cael ei gyfeirio ato fel 'View Point'. Cytunwyd i'w gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.<br><br>Mynegodd GVT ei fwriad i ymddeol yn fuan. Cytunwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. | |
| 18. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>• **Cynnwys eitemau ar agenda cyfarfod Chwefror** | **AME** |
| 19. | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Chwefror 18fed, 2026 | |